**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 RHAGFYR, 2020**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM**

**Yn bresennol** Cyng. Mark Davies (cadeirydd), Cyng. Ceri Jones, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Julie Davies, Cyng. Roger Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones, Cyng. Owenna Davies, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Llŷr Evans

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones, Cyng. Owenna Davies, Cyng. Teifi Evans a Chyng. Llŷr Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau | | |
| | | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Cynigiodd Cyng Maldwyn Lewis eu bod yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Ceri Jones a chytunodd pawb a oedd yn bresennol. | | |
| | | Materion yn Codi – Mae angen diweddaru'r wefan trwy gynnwys gwybodaeth leol arni h.y. Mark Webb & Son,; Busnes Cymru a Kickstart Cymru, yn ogystal â chynnwys cofnodion mis Tachwedd ac Agenda cyfarfod mis Rhagfyr. | **Clerc** | |
| | | Roedd y twll a oedd wedi ymddangos yng nghanol y ffordd yn Rhydlewis gerllaw safle Mark Webb & Son, Cigydd, wedi cael ei drwsio. | | |
| | | O ran yr archwiliad, ni chysylltwyd â Mr. Denver Morgan eto. Mae Cynghorwyr Mark Davies a Maldwyn Lewis yn gobeithio cysylltu ag ef pan fydd hynny'n bosibl. | **Cynghorwyr MD ac ML** | |
| | | O ran y broblem gyda llygod mawr, dylai ddarllen Coed-y-bryn, nid Maes-llyn, fel y nodwyd yng nghofnodion mis Tachwedd. | | |
| 3 | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Atgoffodd Cyng Maldwyn Lewis bawb o'r ffaith bod nifer yr achosion o Covid yn cynyddu yng ngwaelod y sir, a nododd na ddylai pobl deithio mwy nag sydd raid, gan deithio os yw hynny'n hanfodol yn unig. Caewyd ysgolion ac roedd rhai busnesau lleol wedi cau o'u gwirfodd. Mae angen i bawb fod yn wyliadwrus iawn, gan wrando ar yr holl argymhellion. Roedd rhai plant ysgol wedi profi'n bositif a phenderfynwyd cau Ysgol T. Llew Jones fel rhagofal. | | |
| 4. | Gohebiaeth | Roedd Cyng Mark Davies wedi cael holiadur gan Gyngor Sir Ceredigion, a oedd yn cynnwys dolen i GIG yn gofyn am farn pobl | | |

ynghylch fferyllwyr lleol.  Dywedodd Cyng Mark Davies wrth y cynghorwyr y gallant lenwi'r ffurflen ar-lein.

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Ariannol | CThEM – 1 siec am y swm o £42.60<br>Cyflog y Clerc - £339.80 (Hydref £170.00 a Thachwedd £169.80)<br>Canolfan Gardd Trefhedyn (goleuadau ar gyfer coed Nadolig) - £89.95<br><br>Y Clerc i gyflwyno manylion unrhyw dreuliau yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr (stampiau a batris ar gyfer goleuadau coed Nadolig hyd yn hyn).<br><br>Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu â rhai o'r sefydliadau oedd wedi gwneud cais am grant yn flaenorol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cydnabod eu bod wedi cael y neges e-bost, ond gan nad oedd y sefydliadau/clybiau hyn yn cyfarfod ar hyn o bryd, nid oeddent yn credu y byddent yn gwneud cais eleni.  Fodd bynnag, roedd rhai clybiau yn ceisio cysylltu ag aelodau a byddant yn rhoi gwybod i ni maes o law.<br><br>Cafwyd un neges e-bost yn gofyn am Ffurflen Grant gan Mrs. Catherine Cummins ar ran Eglwys Troedyraur ac roedd y Clerc wedi cysylltu â hi, a'i hysbysu bod y ffurflen gais ar gael ar y wefan, ac i gysylltu eto os na fyddai'n gallu troi ati o'r wefan. |
| | Cynllunio'r Gyllideb | I'w drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr. |
| | Cyfarfod Zoom | Gan bod nifer yr achosion Covid yn cynyddu bellach, efallai nad yw'r gobaith a'r posibilrwydd o fod yn gallu defnyddio Neuadd Rhydlewis yn bosibl fel y gobeithiwyd ym mis Ionawr 2021.  Arhosir i weld beth fydd yn digwydd dros y mis nesaf, gan ystyried prynu tanysgrifiad i Zoom o bosibl, yn y gobaith y byddai gwell gwasanaeth/cyswllt ar gael i ni.  Ar gyfer y cyfarfod ym mis Ionawr ac er mwyn cadw llygad ar ddatblygiadau, trefnir 2 ddolen yn barod ar gyfer y cyfarfod. |
| 6. | Materion Ardal | **Rhydlewis** – Bu damwain lle'r oedd tractor wedi achosi difrod sylweddol i dŷ ar ochr arall y bont.  Diolch byth, ni chafodd unrhyw un eu hanafu.  Mae sawl cerbyd wedi achosi difrod i'r eiddo hwn, ac roedd Mr. Gary Griffiths o Benrhos wedi mynychu'r digwyddiad.<br><br>**Croes-lan** – Adroddodd Cyng. Sharon Thomas bod panel ar goll o'r lloches bws yng Nghroes-lan.  Adroddir am hyn i CPTU trwy CLIC.<br>**Clerc**<br><br>**Coed-y-bryn** – Nododd Cyng. Roger Davies nad oedd y llygod mawr yn dod o'r uned trin dŵr newydd yng Nghoed-y-bryn gan bod hon yn uned seliedig.  Mae Cyng. Julie Davies wedi adrodd am y digwyddiad i adran Iechyd yr Amgylchedd mewn neges e-bost.  Mae Iechyd yr Amgylchedd yn ymwybodol o'r broblem ac yn delio â hi.<br>Mae un o arwyddion Coed-y-bryn wedi mynd ar goll – ochr Maes-llyn y pentref. |

Roedd Cyng. Llŷr Evans wedi anfon neges yn nodi bod arwydd 'tractor' wedi cael ei ddwyn gerllaw caeau'r sioe.

Roedd tyllau wedi ymddangos yn y ffordd gerllaw ysgol Brongest. Adroddir am hyn trwy CLIC. **Clerc**

**Ffostrasol** – roedd cryn weithgarwch wedi digwydd yn siop y pentref ond ni chafwyd unrhyw newyddion am yr hyn a oedd yn digwydd. Cliriwyd hen stoc o'r siop ac ati.

Adroddodd y Clerc bod y gwydr yn yr hysbysfwrdd wedi torri.

Dywedodd Cyng. Mark Davies bod aelodau o gymuned Ffostrasol wedi cael eu cyfweld ar 'Radio Beca' ac yn dilyn y cyfweliad hwn, crëwyd tudalen Cymuned Ffostrasol ar Facebook, a'i henw fydd ‘Cymuned Ffostrasol Community’ ac fe'i defnyddir i roi'r newyddion diweddaraf i'r gymuned leol am ddigwyddiadau lleol ac ati.

7. **Coed Nadolig –** gosodwyd y coed yn Ffostrasol ac yn Rhydlewis. Diolchodd Cyng Mark Davies i Gyng Sharon Thomas am roi'r coed i'r Cyngor Cymuned trwy fusnes ei theulu. Roedd ‘Ffrindiau Ffostrasol’ wedi rhoi 4 set o oleuadau ar gyfer y coed, a defnyddiwyd y rhain yn Ffostrasol ac yn Rhydlewis. Roedd Cyng. Ceri Jones wedi prynu rhagor o oleuadau ar gyfer y coed sy'n weddill.
Gosodir gweddill y coed Nadolig yn ystod yr wythnos i ddod.

Gosodir y goeden yng Nghroes-lan ar y safle gwyrdd o flaen Garej Croes-lan. O ran gosod y goeden ym Mrongest, nid oedd Cyng. Teifi Evans yn siŵr a oedd ei hangen, ond byddai Cyng. Ceri Jones yn gwneud ymholiadau pellach, ac mae'n bosibl y byddai modd gosod coeden gerllaw Salem. O ran Maes-llyn, roedd Elaine Thomas eisoes wedi prynu coeden a byddai'n cael ei gosod yng Ngardd y Mileniwm ym Maes-llyn. Bydd Cyng Ceri Jones yn trefnu eu bod yn dosbarthu goleuadau Nadolig i Gyng. Julie Davies ar gyfer y goeden.

8. Archwiliad — Bydd Cyng. Maldwyn Lewis a Chyng. Mark Davies yn siarad gyda Mr. Denver Morgan (Aberaeron) er mwyn cael cyngor.

9. Cyfarfod Nesaf — Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 5 IONAWR, 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto ar Zoom.

Cadarnhaodd y Clerc bod y cyfeiriad er mwyn anfon gohebiaeth wedi cael ei ddiweddaru gyda'r banc ar ôl yr anfonwyd llythyr at y gangen yng Nghaerfyrddin. Awgrymwyd y dylid ceisio hwyluso cyfleusterau bancio ar-lein unwaith eto ar gyfer y Cyngor Cymuned nawr. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r banc i holi pa gamau y mae angen eu cymryd.

10. Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf —
Ffurflenni Grant
Cynllunio'r gyllideb
Archwiliad
Materion Ardal
Adroddiad y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth

Agenda mewn hysbysfyrddau ar gyfer y cyfarfod nesaf Clerc